



# National Offender Management Service

## Swydd Ddisgrifiad (SDd)

### Band 3

## Proffil Grŵp – Cyflawni Medrus

## (CM) Swydd Ddisgrifiad - (SDd): Arlwyo

**Cyfeirnod y Ddogfen**

**Math o Ddogfen**

**Fersiwn**

**Dosbarthiad**

**Dyddiad cyhoeddi**

**Statws**

**Cynhyrchwyd gan**

**Awdurdodwyd gan**

**Tystiolaeth ar gyfer y SDd**

OR-JES-216-JD-B3 : CM: Arlwyo

Rheoli

6.0

Annosbarthedig

25/09/15

Gwaelodlin

Tîm Gwerthuso Sicrwydd a Chymorth Swydd

Tîm Gwobrwyo

## Swydd Ddisgrifiad

<b>Teitl y Swydd</b>	CM: Arlwyo
<b>Proffil Grŵp</b>	Cyflawni Medrus
<b>Lefel yn y Sefydliad</b>	Cyflawni
<b>Band</b>	3

<b>Trosolwg o'r swydd</b>	Mae hon yn swydd gyflawni o fewn sefydliad sy'n gofyn am sgiliau crefft priodol.
<b>Crynodeb</b>	<p>Bydd deiliad y swydd yn arlwywr wrth ei grefft a bydd yn darparu gwasanaethau arlwyo i garcharorion o fewn y sefydliad gan ddefnyddio offer cysylltiedig mewn modd saff a diogel.</p> <p>Mae hon yn swydd anweithredol heb unrhyw gyfrifoldebau rheolaeth linell.</p>

<p><b>Cyfrifoldebau, Gweithgareddau a Dyletswyddau</b></p>	<p>Bydd rhaid i ddeiliad y swydd gyflawni'r cyfrifoldebau, y gweithgareddau a'r dyletswyddau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gweithio gyda charcharorion yn y ceginau, gan eu cynorthwyo i weithio mewn modd diogel ac effeithlon a sicrhau bod diogelwch yn cael ei gynnal</li> <li>• Paratoi a choginio bwyd, gan sicrhau defnydd effeithiol o gynhwysion i leihau gwastraff, darparu gwasanaeth arlwygo ar gyfer dietau arbenigol ar sail credoau crefyddol a materion meddygol</li> <li>• Paratoi archebion bwyd a nwyddau arlwygo eraill yn ôl y gofyn, i'w hawdurdodi gan reolwyr; gwirio unrhyw ddanfoniadau ar gyfer y gegin a sicrhau bod y stoc yn cael ei gylchdroi</li> <li>• Cydlynu adnoddau, gan gynnwys bwyd, cynhwysion a niferoedd staff/carcharorion er mwyn darparu gofynion arlwygo o ddydd i ddydd y sefydliad</li> <li>• Gweini bwyd yn y gegin neu'r ardaloedd plât poeth; ymweld ag ardaloedd preswyl i wirio safonau hylendid a'r arferion gweini bwyd yn ôl yr angen</li> <li>• Danfon a chasglu bwyd gyda'r troli, a fydd efallai yn golygu defnyddio cerbyd cyflenwi</li> <li>• Cyfrannu at yr adolygiad o ymarfer arlwygo yn y gegin yn gyson ar draws yr uned wrth gymhwyso polisïau a gweithdrefnau sy'n effeithio ar garcharorion a staff</li> <li>• Sicrhau bod carcharorion yn cydymffurfio â pholisïau iechyd a diogelwch perthnasol wrth gyflawni dyletswyddau o fewn y gegin</li> <li>• Cymryd rhan yn y broses o ddethol carcharorion ar gyfer dyletswyddau yn y gegin</li> <li>• Cwblhau gwybodaeth monitro trefn a diweddarau cofnodion hyfforddi carcharorion</li> <li>• Sicrhau bod yr holl offer a chyfarpar yn ddiogel ac yn cael eu cyfrif yn briodol a chofnodi gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio pan fo angen yn unol â'r Strategaeth Diogelwch Lleol a'r Fframwaith Diogelwch Cenedlaethol</li> <li>• Helpu i ddarparu hyfforddiant i garcharorion</li> <li>• Cynnal cysylltiadau rheolaidd drwy radio yn unol â'r Strategaeth Diogelwch Lleol (LSS).</li> <li>• Cynnal gwiriadau offer yn rheolaidd yn unol â'r Strategaeth Diogelwch Lleol a'r Fframwaith Diogelwch Cenedlaethol</li> <li>• Cydymffurfio â phob polisi a deddfwriaeth Diogelwch Bwyd ac Iechyd a Diogelwch</li> <li>• Cynnal chwiliadau manwl a chwiliadau cyffredinol ar garcharorion yn unol â gofynion y rheolwyr</li> <li>• Gweithredu mewn modd awdurdodol yn unol â chynlluniau wrth gefn lleol</li> <li>• Agor a llenwi ffurflenni Asesiadau, Gofal yn y Carchar a Gwaith Tîm (ACCT), Adroddiadau Lleihau Digwyddiadau Trais (VRIR) ac Adroddiadau Gwybodaeth Diogelwch</li> </ul>
	<p>(SIRs) pan fo angen a chyfrannu i adroddiadau Cymhellion a Breintiau a Enillir (IEP) Sicrhau bod yr holl gofnodion monitro dyddiol sy'n cefnogi systemau a gweithdrefnau diogelwch bwyd yn cael eu cwblhau</p> <p>Mae'r dyletswyddau/cyfrifoldebau uchod yn disgrifio'r swydd fel y mae ar hyn o bryd, ac nid yw'n rhestr gyflawn. Disgwylir i ddeiliad y swydd dderbyn addasiadau rhesymol a thasgau ychwanegol sydd ar lefel debyg a allai fod yn angenrheidiol. Os bydd addasiadau sylweddol mae'n bosib y bydd angen ystyried y swydd unwaith eto dan y cynllun Gwerthuso Swydd, a thrafodir hynny â deiliad y swydd yn y lle cyntaf.</p>

<b>Cymwysterau Gofynnol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd gwiriadau diogelwch ac adnabod yn cael eu cynnal ar bob ymgeisydd cyn iddynt gychwyn y swydd.</li> <li>• Bydd rhaid i bob ymgeisydd allanol gwblhau cyfnod prawf o 6 mis. Bydd rhaid i ymgeiswyr mewnol gwblhau cyfnod prawf os nad ydynt eisoes wedi cwblhau cyfnod prawf i NOMS.</li> <li>• Bydd rhaid i'r holl staff ddatgan a ydynt yn aelod o grŵp neu sefydliad sy'n cael ei ystyried yn hiliol gan y Gwasanaeth Carchardai.</li> </ul>
<b>Sgiliau / Cymwysterau/ Achrediadau/ Cofrestrïadau Hanfodol</b>	<p>Meddu ar Gymhwyster Galwedigaethol Lefel 3 neu fod yn barod i weithio tuag at ennill y cymhwyster hwn o fewn amserlen y cytunwyd arni.</p> <p>Rhaid i ddeiliad y swydd feddu ar y cymwysterau hanfodol canlynol; tystysgrif lefel 2 mewn Cynhyrchu Bwyd o fewn Lletygarwch ac Arlwyio neu gyfatebol. Yn ogystal, mae'n rhaid iddynt feddu ar dystysgrif hylendid bwyd lefel 2, ac mae'n ofynnol iddynt fod yn gyfarwydd â'r holl reoliadau cyfredol sy'n ymwneud â iechyd, diogelwch a hylendid ar gyfer gweithio mewn cegin. Rhaid iddynt allu dangos cymhwysedd o fewn amgylchedd cegin ddiwydiannol. Dylid cwblhau hyfforddiant gloywi mewn Diogelwch Bwyd (HACCP) bob 3 blynedd.</p> <p>Y gallu i gyflawni pob agwedd lafar o'r rôl yn hyderus drwy gyfrwng y Saesneg neu (pan bennir yng Nghymru) Cymraeg.</p>

<b>Oriau Gwaith a Lwfansau</b>	<p>37 awr yr wythnos (safonol)</p> <p>Staff NOMS sydd ar strwythurau tâl caeedig:</p> <p>Oriau wedi'u Pennu Ychwanegol sy'n Bensiynadwy (ACHP)</p> <p>Bydd staff sy'n symud o strwythur tâl caeedig 39 awr yn gymwys i gael y ddwy awr ychwanegol sy'n bensiynadwy ac yn cael eu gwarchod (ACHP). Byddant yn gweithio 39 awr yr wythnos fydd yn cynnwys y 37 awr yr wythnos safonol a 2 awr yn ychwanegol (ACHP) yn daladwy ar gyfradd amser cyffredin sy'n bensiynadwy.</p> <p>Bydd Gweithio Oriau Anghymdeithasol yn cael ei gadarnhau gan y Rheolwr Recriwtio a thelir amdano dim ond lle bo'n berthnasol:</p> <p>Oriau Gwaith Anghymdeithasol</p> <p>Fel rhan o'r rôl hon bydd gofyn i chi weithio oriau anghymdeithasol yn rheolaidd ac fe delir 17% yn ychwanegol at eich tâl sylfaenol er mwyn cydnabod hyn. Oriau anghymdeithasol yw'r oriau hynny sydd y tu allan i 0700 – 1900 o'r gloch dydd Llun i ddydd Gwener ac mae'n cynnwys gweithio gyda'r nos, drwy'r nos, ar benwythnosau a gwyliau Banc / Cyhoeddus.</p>